Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Helpwch ni i Drechu Jac!

**Jac y Neidiwr – Rhywogaeth Estron Oresgynnol**







Os yw codennau'r hadau yn edrych fel y rhai uchod, mae'n bwysig i chi beidio tynnu'r planhigyn, oherwydd bydd hyn yn achosi i'r codennau ffrwydro a gwasgaru'r hadau dros ardal eang.

## Beth yw hwn a pham mae e'n broblem?

Mae Jac y Neidiwr ('Himalayan Balsam' yn Saesneg) yn rhywogaeth anfrodorol sy'n bygwth ein planhigion brodorol. Gall y planhigyn gynhyrchu llawer o hadau, sy'n cael eu rhyddhau o'r codennau ffrwydrol ac sy'n gallu teithio mor bell â 7m, sy'n caniatáu i'r planhigyn ymledu'n gyflym a disodli'n planhigion brodorol. Gall yr hadau dyfu ac ymsefydlu yn unrhyw le, sy'n rheswm arall pam mae angen eich help chi arnon ni i gael gwared ar y planhigyn hwn o'n cefn gwlad.

## Sut allwn ni weithio gyda'n gilydd i helpu i'w drechu?

Rydyn ni'n gofyn i chi, y bobl sy'n defnyddio'r llwybrau troed drwy'r coetir hwn, ein helpu i ddifa'r rhywogaeth oresgynnol hon ac i helpu'n rhywogaethau brodorol i oroesi a ffynnu.

Os gwelwch chi'r planhigyn hwn ar ymyl llwybr troed, gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- Tynnu – Tynnwch y planhigyn allan o'r ddaear (yn cynnwys y gwreiddiau)
- Malu – Malwch y planhigyn drwy dorri'r coesyn mewn sawl lle
- Sathru – I'w ddifa'n llwyr, rhowch y planhigyn ar lawr a'i sathru gyda'ch esgidiau. Yna gadewch y planhigyn i bydru'n naturiol ar ymyl y llwybr

**Rydyn ni'n argymell y dylech wisgo menig pan fyddwch chi'n tynnu Jac y Neidiwr, er nad yw'r planhigyn yn niweidiol i'ch iechyd.**

**Ni ddylid tynnu Jac y Neidiwr os yw codennau'r hadau'n aeddfed**


03000 65 3000

cyfoethnaturiol.cymru


Gallwch ddysgu mwy yma: